

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# SAFONAU'R GYMRAEG

Adroddiad Monitro Blynyddol Ebrill 2025 – Mawrth 2026

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **3**

**Crynodeb Gweithredol** .......... **4**

**Cefndir a'r sefyllfa bresennol** .......... **5**
Atebolrwydd a chyfrifoldeb dros y Gymraeg .......... 5
Trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r adroddiad hwn .......... 5

**Materion a gododd yn ystod y cyfnod adrodd.** .......... **6**
Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg .......... 6
Cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaethom yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2025/26 **10**
Cwynion **12**
Camau i'w cymryd yn 2026/27 a thu hwnt. .......... **12**

**Sgiliau Cymraeg y Gweithwyr** .......... **14**

**Casgliad** .......... **19**

## Cyflwyniad

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (ATACGC) yn cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth ddiwylliannol ac yn gwerthfawrogi'r cyfoeth o amrywiaeth sydd yn ein cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth inni gynnal ein gwaith.

Gosododd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar ATACGC i gydymffurfio â chasgliad o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Rydym ni fel Awdurdod yn parhau i weithio o fewn y Safonau hyn, ac yn eu defnyddio i ddatblygu ein hymrwymiad a'n dyhead i ddarparu gwasanaethau'n deg i bob rhan o ganolbarth a gorllewin Cymru.

Rydym yn cydnabod hefyd ein dyletswydd i'n staff, sydd, ar y cyfan, yn drigolion gorllewin a chanolbarth Cymru ac yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau.

Rydym yn cydnabod, er gwaethaf yr heriau sylweddol sy'n ein hwynebu, ei bod yn bwysig i ni herio a gwella'r ffordd rydym yn gweithio os ydym am sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'n cymunedau. Nid oes arnom ofn newid, ac rydym wrth ein boddau'n canfod ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau. Drwy gynllunio'n ofalus, gallwn ystyried beth rydym eisiau ei wneud yn y tymor byr, y tymor canolig, ac yn hirdymor er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu ein gweithgareddau'n barhaus ac yn creu gweithlu sy'n gynrychioliadol. Bydd hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau cwbl gynhwysol, gan sicrhau y gall ein staff a'n cymunedau ddefnyddio ein gwasanaethau ym mha bynnag iaith y maen nhw ei hangen ac yn ei dewis.

Diolch,

John Davies.

Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Crynodeb Gweithredol

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn gwbl ymwybodol y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn ymfalchïo yn ein hymrwymiad parhaus i'r Gymraeg ac i gynyddu'r nifer o wasanaethau dwyieithog a gynigiwn a gwella'r dewis o ran iaith i'n staff a'n cymunedau bob blwyddyn.

Ein gweledigaeth yw cael gwasanaeth Cymraeg uchelgeisiol lle bydd holl staff GTACGC yn gallu deall a defnyddio'r Gymraeg ar lefel sy'n briodol i'w swydd.

Ein nod yw darparu gwasanaeth Cymraeg sy'n mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth ddeddfwriaethol, ac sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn a'r staff a gyflogwn, gan gydnabod eu hawliau, gan fodloni eu hanghenion, a chan gyfrannu at eu datblygiad. Ein gwerthoedd sefydliadol yw'r sylfaen sy'n cynnal y dull hwn.

Rydym yn dilyn arweiniad Llywodraeth Cymru yn ein cred fod y Gymraeg yn perthyn i ni gyd, ni waeth beth fo'n cefndir ieithyddol, a'i bod yn sgil alwedigaethol y dylai ein holl staff feddu arni ar lefel sy'n briodol i'w swydd a'u lleoliad, a hynny er mwyn ein galluogi i ddatblygu, i ddarparu ac i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg priodol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed mewn meysydd gwasanaeth allweddol ac am lwyddiannau penodol a fydd yn gwella ein gallu i ddarparu ein gwasanaethau'n ddwyieithog. Fodd bynnag, er bod cynnydd da wedi'i wneud, mae hefyd yn cydnabod bod gwaith eto i'w wneud i sicrhau ein bod yn cydnabod anghenion iaith ac yn darparu dewisiadau iaith go iawn i'n cymunedau a'n staff. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi nodi camau allweddol y byddwn yn eu blaenoriaethu er mwyn gwella dros y deuddeg mis nesaf. Bydd y meysydd allweddol hyn yn adeiladu ar y gwaith rydym eisoes wedi'i wneud eleni i wella capasiti dwyieithog ein Gwasanaeth.

Rydym eisiau sicrhau bod y nifer gorau posibl o staff dwyieithog yn gweithio yn y meysydd allweddol sy'n adlewyrchu proffil iaith ein cymunedau. Felly, rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i annog gweithleoedd dwyieithog a chreu amgylchedd gwaith cadarnhaol lle gall ein staff a'n cymunedau ymgysylltu â ni yn ffurfiol ac yn anffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Diolch yn fawr,

Craig Flannery.

Prif Swyddog Tân.

## Cefndir a'r sefyllfa bresennol

Ar 30 Medi 2016, cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i ATACGC, o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yr hysbysiad hwn sy'n nodi pa Safonau sy'n cael eu gosod arnom ni, eu dyddiadau gweithredu, ynghyd ag unrhyw eithriadau. Mae Hysbysiad Cydymffurfio ATACGC i'w gael ar ein gwefan yma.

Fel rhan o'r Hysbysiad Cydymffurfio, roedd rhaid i ATACGC gyhoeddi dogfen erbyn 30 Mawrth 2017 a oedd yn nodi sut yr oedd yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau ar lefel gorfforaethol a beth oedd ei brosesau mewnol ar gyfer goruchwylio a monitro'r camau gweithredu. Mae Cynllun Gweithredu ATACGC ar gael ar ein gwefan yma.

O dan y ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol i ATACGC hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at fodloni a chynnal Safonau'r Gymraeg.

Yn yr adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2025/26, mae ATACGC yn gwerthuso sut rydym wedi cydymffurfio â'r Safonau a sut rydym wedi hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r adroddiad hwn, ynghyd ag adroddiadau blaenorol, ar gael ar ein gwefan yma.

### Atebolrwydd a chyfrifoldeb dros y Gymraeg

Ar lefel ATACGC, Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu'r Awdurdod sydd yn atebol am y Gymraeg.

O fewn GTACGC, y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol sydd â'r swyddogaeth reoli uchaf ac mae'n cael ei arwain gan y Prif Swyddog Tân. O fewn y Bwrdd Gweithredol, y Dirprwy Brif Swyddog Tân yw'r arweinydd gweithredol dros y Gymraeg, ac mae ganddynt gyfrifoldeb rheolwr llinell dros yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes.

Mae gan y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes gyfrifoldeb strategol a gweithredol dros y Gymraeg.

Y Swyddog Iaith Gymraeg sy'n gyfrifol am weithredu'r Safonau ac am hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

### Trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r adroddiad hwn.

Cyflwynwyd yr adroddiad i Bwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu ATACGC ym mis Gorffennaf 2026 ac fe'i cymeradwywyd.

# Materion a gododd yn ystod y cyfnod adrodd.

## Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Mae'r tabl isod yn cofnodi pa gamau a gymerwyd a'r materion a gododd yn ystod 2024/25 o ran cyflawni'r Safonau y mae ATACGC yn ddarostyngedig iddynt, fel yr amlinellir yn Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

| Safonau Cyflwyno'r Gwasanaethau | Camau a gymerwyd yn ystod 2025/26 |
|---|---|
| Safonau 1, 4, 5–7 | Fe wnaethom barhau i sicrhau bod holl dimau gweinyddol yr adrannau yn gyfarwydd â'r canllawiau a'r adnoddau sydd ar gael ynghylch y Safonau sy'n ymwneud yn benodol â gohebu ag unigolion o fewn ac oddi allan i'r sefydliad. |
| Safonau 8–22 | Yn ystod 2025/26, cynhaliwyd proses siopwr dirgel gan swyddogion sefydliad Comisiynydd y Gymraeg, ynglŷn â'r defnydd o ddull cyson a dwyieithog o ateb galwadau ffôn.<br><br>Adroddwyd yn ôl bod pob galwad yn cael ei thrin yn gywir o fewn y paramedrau dwyieithog a osodwyd i ni fel sefydliad. Mae hyn yn dangos defnydd o'r wybodaeth a ddosbarthwyd i'n staff mewn perthynas â chanlyniadau anfoddhaol prosesau siopwyr dirgel tebyg y blynyddoedd diwethaf.<br><br>Mae'r neges fideo gwybodaeth wedi'i diweddaru a anfonwyd allan i'r holl staff ei gwylio (yn dilyn proses y llynedd) ar gael yn barhaol ar dudalennau mewnrwyd y Gwasanaeth wrth i ni barhau i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r gofyniad i ystyried pwysigrwydd dewis iaith wrth ddelio â galwadau ffôn i ac oddi wrth aelodau'r cyhoedd. |
| Safonau 28–32 | Bu cyfieithydd ar y pryd yn bresennol yn holl gyfarfodydd cyhoeddus Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn dilyn cytundeb gyda Thîm Arweinyddiaeth Weithredol y Gwasanaeth, cyflwynwyd mwy o adroddiadau yn y Gymraeg, gan gynyddu'r defnydd ohoni yn y fforwm cyhoeddus hwn.<br><br>Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bu inni baratoi Gweithdrefn Aml-leoliad ar gyfer yr Awdurdod, sydd bellach wedi'i chynnwys yn y Cyfansoddiad. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ynghylch y defnydd o gyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd llawn yr Awdurdod a Phwyllgorau. |
| Safonau 32, 36, 58-60 | Mae'r holl ddeunyddiau a llwyfannau sydd ar gael i'r cyhoedd wedi'u creu a'u harddangos yn ddwyieithog, gan gynnwys gwefan y gwasanaeth a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.<br>Mae ein gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod y Gymraeg ar |

| | |
|---|---|
| | flaen y gad yn ein holl ryngweithiadau cyhoeddus.<br><br>Caiff pob poster, taflen, fideo neu ddeunydd hyrwyddo arall eu creu yn ddwyieithog hefyd.<br><br>Ac eithrio arwyddion yr ochr weithredol, mae pob arwydd wedi'i gynhyrchu'n ddwyieithog. |
| Safonau 49, 52, 53 a 54 | Datblygodd y Gwasanaeth wefan newydd a aeth yn fyw yn chwarter 1 2024/25.<br><br>Yn dilyn adolygiad llawn o ofynion i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Iaith Gymraeg sy'n berthnasol, rydym wedi bod yn chwilio am gyfleoedd i fynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth ac ymestyn cynnwys sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd trwy gyfrwng y Gymraeg. |

| **Safonau'r Ochr Weithredol** | **Camau a gymerwyd yn ystod 2025/26** |
|---|---|
| Safonau 125 –130<br>. | Ymgymerodd y Swyddog Iaith Gymraeg â chwrs Sesiwn Ymwybyddiaeth y Gymraeg 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' yn chwarter olaf 2025 er mwyn gallu cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth i staff yn well. Bydd y sesiwn wybodaeth newydd yn cael ei defnyddio a'i chyflwyno i bob adran ar draws y gwasanaeth. Bydd y sesiynau hyn yn cynnwys elfennau o hanes y Gymraeg, y gormes mae'r Gymraeg wedi'i wynebu, gwybodaeth am gyfreithiau a rheoliadau cyffredinol y Gymraeg, ac yna adran wedi'i dargedu ar ba rai o Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i bob adran. Mae'r sesiwn gyntaf o'r rhain wedi'i threfnu i ddigwydd yn ail chwarter 2026/27 a bydd yn cael ei chyflwyno i bob adran yn ei thro.<br><br>Bydd cyflwyniad gwybodaeth 'Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg' sy'n para 30 munud hefyd yn cael ei gynnwys ym mhob sesiwn cynefino newydd i staff cefnogol a Diffoddwyr Tân fel fideo, fel bod gan bob aelod newydd o staff ddealltwriaeth well o awydd y Gwasanaeth i fod yn wasanaeth dwyieithog naturiol a hefyd i hysbysu pob unigolyn newydd am ddisgwyliadau Safonau'r Iaith Gymraeg. |
| Safonau 117 - 122 | Gan adeiladu ar waith y llynedd o gynnal adolygiad cyfannol o wefan Cornel Cymraeg ac addasu cyngor, canllawiau a gwybodaeth yn ôl yr angen, mae'r Cornel Cymraeg bellach wedi dod yn 'siop un stop' sy'n caniatáu i weithwyr gael lle canolog i fynd iddo am arweiniad ffurfiol a chymorth |

| | |
|---|---|
| | anffurfiol. Cedwir yr holl fideos gwybodaeth a gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'r iaith Gymraeg yno ar ôl iddynt gael eu dosbarthu drwy e-bost neu bost Insight.<br><br>Rydym bellach wedi dechrau annog adrannau eraill i edrych ar ffyrdd o ymgorffori'r iaith Gymraeg yn eu tudalennau mewnrwyd eu hunain, gan sicrhau ein bod yn mynd y tu hwnt i'r gofynion cydymffurfio. |
| Safon 124 | Eleni rydym wedi parhau i sicrhau ein bod yn asesu sgiliau Cymraeg ein gweithwyr. Mae'n gadarnhaol nodi bod nifer yr ymatebion a gawsom i'r holiadur asesu hwn wedi parhau i fod yn uchel (2026 – 404, 2025 – 497, 2024 – 444, 2023 - 337).<br><br>Mae canlyniadau'r ymarfer hwn wedi'u cyhoeddi yn y ddogfen hon (gweler tudalen 13).<br><br>Mae gwaith ar y gweill i wella cydweithio ag AD a'r meddalwedd Core HR i sicrhau bod Sgiliau Iaith Gymraeg gweithwyr yn cael eu cofnodi mewn ffordd fwy deinamig. Bydd hyn yn ein galluogi i olrhain ffigurau sylfaenol, newidiadau a cheisiadau ynghylch sgiliau Cymraeg yn well. Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i wella sut cesglir data am sgiliau Cymraeg gweithwyr newydd.<br><br>Rydym hefyd yn aros am gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â mabwysiadu Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) newydd, sy'n safon ryngwladol ar gyfer disgrifio hyfedredd ieithyddol, yn amrywio o A1 (dechreuwr) i C2 (meistrolaeth). Mae'n rhoi fframwaith tryloyw a chynhwysfawr ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu ar draws pob iaith Ewropeaidd a byddai dilyn y fframwaith hwn yn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â sefydliadau eraill yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn parhau i ehangu yn ystod 2026. |
| Safon 129 | Gan gydnabod pwysigrwydd darparu hyfforddiant Cymraeg i'r holl staff, buddsoddwyd cryn amser a chefnogaeth i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at gyrsiau priodol sy'n addas i'w sgiliau a'u hanghenion dysgu.<br><br>Fe wnaethom barhau i archwilio opsiynau cyrsiau, gan gynnig dulliau dysgu digidol a rhai traddodiadol. Mae'r holl ddarpariaeth hon yn cael ei chefnogi'n llawn yn ariannol ac yn amserol trwy'r Gwasanaeth i annog staff i gymryd rhan. |

| | |
|---|---|
| | Yn ystod 2025/26, dechreuodd 6 unigolyn ar y cwrs '*Say Something in Welsh'* ac mae 2 unigolyn yn ymgymryd â chwrs ystafell ddosbarth ar-lein. Mae'n bwysig nodi mai un o'r unigolion sy'n ymgymryd â'r ddau gwrs a grybwyllir yw ein Prif Swyddog Tân newydd ac mae'r holl unigolion yn ymgymryd â'r cyrsiau hyn gyda chefnogaeth y Gwasanaeth.<br><br>Mae monitro a hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith ein staff wedi bod yn hynod lwyddiannus eleni. Rydym wedi parhau i gefnogi ymgyrchoedd Cymraeg a diwylliannol, ac wedi creu a chylchredeg cyfres o fideos sy'n amlinellu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dyletswydd pawb i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg.<br><br>Mynychodd Ceri Jackson, Pennaeth Adnoddau Corfforaethol, gyfres o seminarau 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog' dan arweiniad Llywodraeth Cymru a oedd yn ymgorffori trafodaethau ynghylch datblygiadau technolegol a meddalwedd mewn cyfieithu Cymraeg a sut i arwain yn llwyddiannus ar newidiadau cynllunio ieithyddol o fewn sefydliad. Cafodd agweddau dysgu a gasglwyd ar y cwrs eu lledaenu ymhlith uwch dimau arweinyddol y Gwasanaeth a byddant yn cael eu defnyddio yn y prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. |

| **Safonau Llunio Polisïau** | **Camau a gymerwyd yn ystod 2025/26** |
|---|---|
| Safonau 85-90, 92-94 | Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o broses lywodraethu'r Gwasanaeth, rydym wedi manteisio ar y cyfle i ystyried ein hadnodd Asesu Effaith ar y Gymraeg er mwyn sicrhau bod yr holl benderfyniadau strategol a wneir gan y sefydliad yn ystyried y Gymraeg. Yn hyn o beth, mae'r adnodd bellach wedi'i olygu a'i ddiweddaru i gasglu rhagor o wybodaeth gefndirol ar bob cynnig. Mae hyn wedi'i rannu gyda'r sefydliad.<br><br>Mae Polisi Defnydd Mewnol Cymraeg newydd wedi'i ddrafftio yn ystod 2025/26, ac fe'i cryfhawyd ymhellach drwy weithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg. |

.

## Cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaethom yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2025/26

**Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda thîm Comisiynydd y Gymraeg i ddatblygu'r meddylfryd o gyd-reoleiddio er mwyn datblygu dulliau monitro a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfio ar draws yr ystod lawn o safonau.**

Fe wnaethon ni barhau i ddatblygu ein perthynas â thîm Comisiynydd y Gymraeg a mynychu sawl sesiwn rhannu gwybodaeth ar-lein, un digwyddiad Cymru-gyfan wyneb yn wyneb a pharhau i fwydo i brosesau hunanreoleiddio'r Comisiynydd. Mae hyn yn ein galluogi i fod yn sicr ein bod yn caniatáu arfer rheoleiddio agored a gonest, gydag unrhyw feysydd sy'n peri pryder i gael eu nodi a'u datrys yn gyflym.

Gan adeiladu ar brosiect Hyrwyddo'r Gwasanaeth Cymraeg y llynedd, cawsom ein dewis gan Gomisiynydd y Gymraeg fel un o dri phartner (Cyfoeth Naturiol Cymru a Thollau a Threthi EF yw'r ddau arall) i gyflwyno ac arddangos y posibilrwydd o ofyn am ymweliad cartref 'Diogel ac Iach' drwy gyfrwng y Gymraeg mewn fforwm ar-lein ledled Cymru. Yn dilyn hyn, mae swyddfa'r Comisiynydd hefyd wedi comisiynu fideo byr hyrwyddo i dynnu sylw at ein gwasanaeth 'Diogel ac Iach', a fydd wedyn yn cael ei rannu gan swyddfa'r Comisiynydd fel enghraifft 'arfer gorau' o wasanaeth cwbl ddwyieithog.

**Byddwn yn cyflwyno Grwpiau Datblygu Sgiliau Cymraeg ar gyfer staff ar draws ein Gwasanaeth, gan greu rhwydwaith cymorth a fydd yn hwyluso defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, gan alluogi staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'u sgiliau yn amlach.**

Fe wnaethom dreulio amser yn ystod y flwyddyn i ddatblygu cysylltiadau o fewn gwahanol adrannau a gweithgorau i adeiladu proffil y Swyddog Iaith Gymraeg o fewn y Gwasanaeth ac i sicrhau bod yr iaith yn cael ei hystyried a'i chynrychioli y tu hwnt i'r fforymau ieithyddol arferol, megis y Pwyllgor Llesiant Iechyd a Diogelwch.

Rydym hefyd wedi dechrau gweithio'n agosach gyda'r Adrannau POD (Datblygu Pobl a Sefydliadol) a Hyfforddi a nhw fydd y cyntaf i dderbyn y rhai sydd newydd eu datblygu.

Rydym wedi ymgorffori adran yn ein Harolwg o Sgiliau Iaith Gymraeg y Staff sy'n ein galluogi i gasglu gwybodaeth gan unigolion sydd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ymholiad am fod angen help i fagu hyder yn eu sgiliau Cymraeg. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i fynd ymlaen i greu system 'Ffrind Iaith/*Language Buddy*'* a fydd yn cael ei lansio yn ystod ymgyrch genedlaethol 'Defnyddia Dy Gymraeg' Comisiynydd y Gymraeg sy'n cael ei chynnal yn flynyddol yn ystod mis Tachwedd/Rhagfyr. Gobeithio y bydd hyn yn dod yn hedyn sy'n ein galluogi i dyfu rhwydwaith o Hyrwyddwyr y Gymraeg mewnol.

**Byddwn yn ymdrechu i wella sgiliau Cymraeg y staff hynny a gofnodwyd ar lefel is na**

**2, a hynny trwy gynnig cefnogaeth gyda datblygu ac asesu.**

Yn ystod 2025/26 dechreuodd 6 unigolyn ar y cwrs byr 'Say Something in Welsh', a dilynodd 2 unigolyn gwrs ar-lein yn yr ystafell ddosbarth. Mae pob unigolyn yn ymgymryd â'r cyrsiau hyn gyda chefnogaeth y Gwasanaeth.

Bydd y gwaith parhaus hyd at 2026 o ddatblygu'r ffordd rydym yn casglu ac yn gosod lefelau sgiliau iaith Gymraeg yn ein galluogi i nodi unigolion sydd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynnig o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau.

**Fe ddywedom y byddem yn adolygu ein dull o gasglu data am sgiliau Cymraeg er mwyn sicrhau bod gennym set ddata sydd wir yn adlewyrchu ein sefydliad ac sy'n addas ar gyfer symud ein nodau, ein hamcanion a'n huchelgeisiau ymlaen i'r dyfodol.**

Dechreuodd gwaith yn chwarter olaf '25 i gysylltu â'r adran Adnoddau Dynol i integreiddio casglu data sgiliau iaith Gymraeg yn well i'r feddalwedd PeopleXD a ddefnyddir ar hyn o bryd. Trwy ddefnyddio'r system feddalwedd hon, byddwn yn gallu dal a defnyddio data mwy deinamig yn y dyfodol, ac olrhain ffigurau sylfaenol, newidiadau a cheisiadau yn well. Sgiliau'r Gymraeg. Bydd y gwaith hwn yn parhau i 26/27 wrth i ni esblygu ein dulliau cipio data wrth weithio'n agosach gyda'n cydweithwyr yn yr adran AD.

**Dywedom y byddem yn creu a dosbarthu sesiwn Wybodaeth Ymwybyddiaeth y Gymraeg newydd a fydd yn cael ei defnyddio ar draws y sefydliad i helpu'r holl staff i wireddu eu dyletswydd i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd y sesiwn wybodaeth newydd hon hefyd yn cael ei defnyddio ym mhroses gynefino pob aelod staff newydd.**

Ymgymerodd ein Swyddog Iaith Gymraeg â chwrs 'Hyfforddi'r Hyfforddwr Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg' yn chwarter olaf '25 er mwyn meithrin yn well yr 'adnoddau' angenrheidiol i ymgysylltu â phob adran ynghylch eu dyletswyddau iaith Gymraeg. Mae sesiwn newydd wedi'i chreu a bydd yn cael ei rhoi i bob adran yn ei thro i sicrhau bod pob unigolyn ac adran yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran Safonau'r Gymraeg. Bydd yr adran gyntaf yn derbyn eu sesiwn yn ystod Chwarter 2 2026/27 ac rydym yn rhagweld y bydd y sesiynau hyn yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn i ddod i hwyluso a chwrdd â phob adran yn eu tro.

Bydd y sesiwn hon hefyd yn cael ei throi'n sesiwn fformat fideo fel y gall pob dechreuwr newydd yn ein Gwasanaeth ddefnyddio'r offeryn hwn fel rhan o'u proses cynefino. Bydd yr offeryn newydd hwn yn cael ei greu yn ystod Chwarter 2 2026/27 ac yna bydd yn dod yn rhan o'r adnoddau sydd ar gael yn adran Cornel Cymraeg ein gwefan fewnrwyd.

## Cwynion

Mae'r tabl isod yn dangos 1 gŵyn a gafwyd yn ystod y cyfnod adrodd:

| Grŵp Safonau | Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol |
|---|---|
| Safonau Cyflwyno'r Gwasanaethau | 1 |
| Safonau llunio polisi | 0 |
| Safonau'r Ochr Weithredol | 0 |

Mae'r gŵyn yn ymwneud ag ateb e-bost dwyieithog gydag ateb Saesneg yn unig. Sicrhawyd bod hyn yn 'gamgymeriad' ar ran yr unigolyn a atebodd, ac mae sgwrs wedi bod gyda nhw i sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd osgoi'r camgymeriad hwn eto yn y dyfodol.

## Camau i'w cymryd yn 2026/27 a thu hwnt.

- Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda thîm Comisiynydd y Gymraeg i ddatblygu'r meddylfryd o gyd-reoleiddio er mwyn datblygu dulliau monitro a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfio ar draws yr ystod lawn o safonau. Byddwn yn lansio Polisi Cymraeg newydd, gan gydnabod yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg yn ogystal â'n dyheadau sefydliadol ni o ran cefnogi a hyrwyddo'r iaith dros y 5 mlynedd nesaf.

- Byddwn yn cyflwyno Grwpiau Datblygu Sgiliau Cymraeg ar gyfer staff ar draws ein Gwasanaeth, gan greu rhwydwaith cymorth a fydd yn hwyluso defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, gan alluogi staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'u sgiliau yn amlach.

- Byddwn yn ymdrechu i wella sgiliau Cymraeg y staff hynny a gofnodwyd ar lefel is na 2, a hynny trwy gynnig cefnogaeth gyda datblygu ac asesu.

- Byddwn yn adolygu ein dull o gasglu data am sgiliau Cymraeg er mwyn sicrhau bod gennym set ddata sydd wir yn adlewyrchu ein sefydliad ac sy'n addas i lywio ein nodau, ein hamcanion a'n huchelgeisiau yn y dyfodol.

- Byddwn yn creu ac yn dosbarthu sesiwn wybodaeth Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg newydd a fydd yn cael ei defnyddio ar draws y bwrdd i helpu'r holl staff i wireddu eu dyletswydd i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd y sesiwn wybodaeth newydd hon hefyd yn cael ei defnyddio ym mhroses gynefino pob aelod staff newydd.

- Fel rhan o'n taith ddiwylliannol a'n rhagolygon strategol newydd, byddwn yn ceisio cefnogi a gweithio tuag at strategaeth 2050 Llywodraeth Cymru sef eu dull hirdymor o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Trwy sicrhau bod

hanfodion y strategaeth uchod sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu hymgorffori cyn gynted â phosibl yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, byddwn wedyn yn gallu symud ymlaen yn hyderus gyda'r ddealltwriaeth ein bod yn gweithredu'n llawn fel Gwasanaeth dwyieithog.

## Sgiliau Cymraeg y Gweithwyr

Mae'r data ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 wedi’i gynnwys yn y tablau isod.

Cynlluniwyd a chynhaliwyd arolwg sgiliau iaith Gymraeg gorfodol yn ail chwarter 2026.

Cafwyd 404 o ymatebion. Dyma ymateb da iawn i sefydliad sydd â llawer o ddiffoddwyr tân ar alwad sy'n gweithio amrywiaeth o oriau rhan-amser ac sydd yn gorfod blaenoriaethu cymwyseddau’r ochr weithredol tra byddant yn y gweithle. Er bod nifer yr ymatebwyr i'r arolwg ychydig yn llai na'r flwyddyn flaenorol, mae'n dal yn gadarnhaol nodi bod y niferoedd ar gyfer y 3 blynedd diwethaf wedi dangos lefel uwch o ymgysylltu â'r Arolwg Sgiliau Cymraeg nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Gofynnwyd i bersonél gofnodi lefel eu dealltwriaeth o’r Gymraeg, ynghyd â'r lefel o ddealltwriaeth yr hoffen nhw ei chael. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

| Lefel | Statws ar Hyn o Bryd | Statws a Ddymunir |
|---|---|---|
| Lefel A1 (Mynediad) - Gallwch gydnabod rhai cyfarchion sylfaenol bob dydd, megis bore da a diolch, os yw'r person yn siarad yn araf iawn. | 165 | 39 |
| Lefel A2 (1) - Gallwch ddeall ymholiadau, gwybodaeth bersonol neu gyfarwyddiadau syml. | 36 | 29 |
| Lefel B1 (2) - Gallwch ddeall pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd arferol, a phobl yn rhoi cyfarwyddiadau neu'n gofyn i chi neu eraill wneud rhywbeth. | 25 | 27 |
| Lefel B2 (3) - Gallwch ddeall gwybodaeth am bynciau cyffredin yn ogystal â phobl sy'n siarad yn eglur wrth wneud cyhoeddiadau neu ar y cyfryngau llafar. | 28 | 55 |
| Lefel C1 (4) - Gallwch ddeall y rhan fwyaf o sgyrsiau a thrafodaethau, hyd yn oed os nad yw'r pwnc yn gyfarwydd a phan | 43 | 29 |

| | | |
|---|---|---|
| fo gwahaniaethau o ran Cymraeg ffurfiol / anffurfiol a thafodiaith. | | |
| Lefel C2 (5) - Gallwch ddeall pob sgwrs a thrafodaeth rhwng eraill, ar bob math o bynciau, ni waeth pa fath o Gymraeg a ddefnyddir, gan gynnwys darlithoedd neu drafodaethau cymhleth. | 74 | 75 |
| Dim - Nid oes gennych unrhyw ddealltwriaeth ar unrhyw lefel. | 33 | 19 |
| Rydych chi'n hapus gyda'r lefel rydych chi arni. | AMH | 131 |

Gofynnwyd i bersonél hefyd nodi lefel eu Cymraeg llafar, yn ogystal â'r lefel yr hoffent ei chyrraedd o ran Cymraeg llafar. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

| **Lefel** | **Statws ar Hyn o Bryd** | **Statws a Ddymunir** |
|---|---|---|
| A1 (Mynediad) – Gallwch ailadrodd rhai geiriau sylfaenol, syml pan fyddwch yn eu clywed yn aml. | 126 | 36 |
| A2 (Lefel 1) - Gallwch ddweud enwau lleoedd, enwau personol ac arwyddion yn gywir neu gyfarch a chyflwyno eraill i'w gilydd neu roi a derbyn manylion personol. | 85 | 29 |
| B1(Lefel 2) - Gallwch wneud ymholiadau syml neu ymateb iddynt, rhannu gwybodaeth a chyfarwyddiadau syml neu ymateb iddynt, a chynnal sgyrsiau byr lle cyfnewidir gwybodaeth syml. | 36 | 36 |
| B2 (Lefel 3) - Gallwch gyfrannu at y rhan fwyaf o sgyrsiau neu gyfarfodydd, gan droi at y Saesneg i | 24 | 59 |

| | | |
|---|---|---|
| drafod neu wrth roi gwybodaeth fanwl. | | |
| C1 (Lefel 4) - Gallwch gyfrannu'n effeithiol at y rhan fwyaf o gyfarfodydd gwaith, cynnal sgwrs yn gyfforddus a chyfnewid gwybodaeth, gan droi at y Saesneg pan fo angen defnyddio terminoleg dechnegol. | 47 | 36 |
| C2 (Lefel 5) - Gallwch fynegi eich hun yn llwyr ac yn fanwl gywir, hyd yn oed pan fyddwch yn trafod materion cymhleth, a gallwch addasu eich arddull iaith i weddu i'r gynulleidfa neu'r cyd-destun. | 54 | 68 |
| Dim - Does gennych chi ddim gallu llafar ar unrhyw lefel | 32 | 16 |
| Rydych chi'n hapus gyda'r lefel rydych chi arni. | AMH | 124 |

Gofynnwyd i bersonél hefyd nodi lefel eu sgiliau darllen Cymraeg, yn ogystal â'r lefel yr hoffent ei chyrraedd o ran darllen Cymraeg. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

| Lefel | Statws ar Hyn o Bryd | Statws a Ddymunir |
|---|---|---|
| A1 (Lefel Mynediad) - Gallwch adnabod rhai geiriau Cymraeg sylfaenol, byr. Gallwch hefyd ddyfalu ystyr rhai geiriau pan fyddant mewn cyd-destun sy'n amlygu'r ystyr. | 133 | 41 |
| A2 (Lefel 1) - Gallwch ddarllen brawddegau byr, arwyddion sylfaenol, cyfarwyddiadau syml neu wybodaeth syml. | 56 | 29 |
| B1(Lefel 2) - Gallwch ddarllen negeseuon byr a deall rhai negeseuon e-bost sylfaenol. | 33 | 28 |

| | | |
|---|---|---|
| B2(Lefel 3) - Gallwch ddeall y rhan fwyaf o negeseuon am waith arferol, a dyfalu ystyr gair os yw'r pwnc yn gyfarwydd. | 24 | 56 |
| C1(Lefel 4) - Gallwch ddarllen y rhan fwyaf o ohebiaeth, edrych yn fras ar destunau hir i ddod o hyd i fanylion, a deall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau gyda chymorth geiriadur. | 48 | 33 |
| C2(Lefel 5) - Gallwch ddarllen a deall bron i bob testun ysgrifenedig yn rhwydd, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol yn unig, gallwch ddarllen testunau, adroddiadau ac erthyglau hir i ddod o hyd i fanylion perthnasol a deall ysgrifennu ffurfiol ac anffurfiol. | 60 | 65 |
| Dim - Nid oes gennych unrhyw sgiliau darllen ar unrhyw lefel | 50 | 19 |
| Rydych chi'n hapus gyda'r lefel rydych chi arni. | AMH | 133 |

Gofynnwyd i bersonél hefyd nodi lefel eu sgiliau ysgrifennu Cymraeg, yn ogystal â'r lefel yr hoffent ei chyrraedd o ran ysgrifennu Cymraeg. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

| Lefel | Statws ar Hyn o Bryd | Statws a Ddymunir |
|---|---|---|
| A1(Mynediad) - Gallwch ysgrifennu gair Cymraeg byr heb fawr o gymorth. | 139 | 50 |
| A2(Lefel 1) - Gallwch agor a chau ebost ac ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd a theitlau swydd. | 52 | 33 |
| B1(Lefel 2) - Gallwch ysgrifennu neges fer i gydweithiwr ac ysgrifennu | 34 | 39 |

| | | |
|---|---|---|
| neges fer i drefnu apwyntiad. | | |
| B2(Lefel 3) - Gallwch ysgrifennu neges ar y rhan fwyaf o bynciau ac ysgrifennu'n gymharol gywir ar y rhan fwyaf o bynciau cyfarwydd. | 38 | 48 |
| C1 (Lefel 4) - Gallwch ysgrifennu gohebiaeth o bob math. | 38 | 29 |
| C2(Lefel 5) - Gallwch ysgrifennu negeseuon estynedig, adroddiadau neu fathau eraill o destun mewn arddull sy'n briodol i'r darllenydd, ysgrifennu mewn Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen, ac ysgrifennu yn gywir iawn ar ystod eang o bynciau. | 29 | 62 |
| Dim - Nid oes gennych unrhyw sgiliau ysgrifennu ar unrhyw lefel | 74 | 22 |
| Rydych chi'n hapus gyda'r lefel rydych chi arni. | AMH | 121 |

Agwedd newydd a ychwanegwyd at yr Holiadur Sgiliau eleni oedd casglu gwybodaeth am ba gymorth, os o gwbl, yr hoffai unigolion ei gael i wella eu sgiliau Cymraeg ac mae'n bwysig nodi bod 73 o bobl wedi ymateb yn gadarnhaol i fod yn agored i / eisiau cymryd rhan mewn gwersi Cymraeg a chyfleoedd anffurfiol i ymarfer a magu hyder. Trwy'r dull hwn, gallwn nawr nodi a chynnig amryw ffyrdd y gall y Gwasanaeth gefnogi a datblygu'r unigolion hynny.

Bydd hyn yn ei dro yn paratoi'r ffordd ar gyfer y prosiect 'Ffrind Iaith/*Language Buddy*' a grybwyllir uchod*, gan greu rhwydwaith o Hyrwyddwyr y Gymraeg mewnol.

## Casgliad

Fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad hwn, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda chefnogaeth ei gorff llywodraethu, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, wedi ymrwymo i gynyddu lefelau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Fel Gwasanaeth, rydym yn falch o'r camau sylweddol yr ydym eisoes wedi'u cymryd i wella'r ddarpariaeth ddwyieithog a gynigiwn i'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaeth, i'n staff, i'n rhanddeiliaid ac i aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod modd gwella eto, a byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn ystod 2026/27.

Mae ymroddiad y Gwasanaeth i sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a'i siaradwyr yn parhau, a byddwn yn dal ati i hyrwyddo, i gefnogi ac i annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth a'n cymunedau ar bob cyfle.

I gael rhagor o wybodaeth am fanylion yr adroddiad hwn, neu i gael rhagor o wybodaeth am sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â Llew Davies, Swyddog y Gymraeg drwy e-bostio llew.davies@tancgc.gov.uk

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service




# SAFONAU'R GYMRAEG

Adroddiad Monitro Blynyddol Ebrill 2025 –

## Social Media

**We encourage you to keep an eye on our social media channels for updates**

**HOFFI** DILYN **RHANNU**

**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**

Our Safety Messages

www.mawwfrs.gov.uk